# Pleidleisiau A Thrafodion Dydd Mawrth, 4 Tachwedd 2003

## Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm

**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**
Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf

**2.52pm**
**Datganiad Busnes**
Cytunwyd ar y datganiad busnes

**2.59pm**
**Datganiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y cyn Bwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar Gynlluniau Amaeth-amgylcheddol**

**3.27pm**
**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Diwygio Rheoliadol (Tenantiaethau Busnes) (Cymru a Lloegr) 2003 o dan Reol Sefydlog 24**
*NDM 1672 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24, ac wrth arfer ei bwerau o dan adran 1(5) Deddf Diwygio Rheoliadol 2001, yn cytuno bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Gorchymyn Diwygio Rheoliadol (Tenantiaethau Busnes) (Cymru a Lloegr) 2003, o ran y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Hydref 2003.

Mae'r Gorchymyn arfaethedig yn amodol ar gytundeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

*Mae Deddf Diwygio Rheoliadol 2001 ar gael ar y Rhyngrwyd drwy glicio yma:*

http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts2001/20010006.htm#1

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46
**Derbyniwyd y cynnig**

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 22.27 (iv) Reoliadau Rheolaeth Frys sy’n Gweithredu Penderfyniadau’r Comisiwn Ewropeaidd i Ddiwygio Penderfyniadau sy’n Gosod Amodau Arbennig ar Fewnforio Prysgnau a Chynhyrchion Prysgnau o’r Aifft -** *Ni chyflwynwyd cynnig*

**3.28pm**
**Dadl ar Gymorth i Fusnesau**

**Cymerodd y Dirprwy Lywydd y Gadair**
***NDM1673 Karen Sinclair (De Clwyd)***
**Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:**
**1. Yn croesawu'r camau a gymerwyd i roi strategaeth "Cymru'n Ennill" ar waith o ran cynorthwyo busnesau, gan gynnwys lansio "Llygad Busnes", sy'n ei gwneud yn haws cael gwasanaethau cymorth busnes yng Nghymru.**

2. Yn croesawu'r ffaith bod llawer o bartneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat yn cymryd rhan yn y gwaith o gynnig gwasanaeth o ansawdd da.

3. Yn annog busnesau yng Nghymru i ddefnyddio'n llawn y gwasanaethau sydd ar gael ac awgrymu ffyrdd o'u gwella eto.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt 1 newydd ac ail rifo'r pwyntiau sy'n weddill yn unol â hynny:
Yn galw ar y Llywodraeth i gynnal adolygiad llawn o gyrff cyhoeddus sy'n cynnig cymorth i fusnesau er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig gwasanaeth cydlynol sy’n hawdd i fusnesau fynd ato ac sy’n diwallu anghenion busnesau.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt 1 newydd ac ail rifo'r pwyntiau sy'n weddill yn unol â hynny:
Yn galw ar y Llywodraeth i dargedu pob busnes yng Nghymru sydd â photensial arbennig i dyfu gyda rhaglen gymorth benodol.

**Gwelliant 3 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Dileu pwynt 1 a rhoi'r pwynt a ganlyn yn ei le:
'1. Yn gresynu at y diffyg cynnydd yn y broses o roi strategaeth gydlynol ar waith i gynorthwyo busnesau, ac yn nodi lansiad y "Llygad Busnes", sy'n ceisio ei gwneud yn haws cael gafael ar wasanaethau cymorth busnes yng Nghymru.'

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ym mhwynt 1 rhoi 'nodi' yn lle 'croesawu'

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ym mhwynt 2 rhoi 'nodi' yn lle 'croesawu'

**Gwelliant 6 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw am wella’r hinsawdd ar gyfer mentergarwch drwy gael gwared ar fiwrocratiaeth ddiangen drwy'r system arfarniad rheoliadol.

*Mae copi o "Cymru'n Ennill" ar gael drwy glicio isod:*http://www.wales.gov.uk/themesbudgetandstrategic/content/neds/awinningwales-0302-w.pdf

**Gwelliant 1**

O Blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd y Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 8; Ymatal 0; Yn erbyn 47; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O Blaid 11; Ymatal 8; Yn erbyn 36; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O Blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O Blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O Blaid 17; Ymatal 8; Yn erbyn 30; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Gwelliant 6**

**Y cynnig**
O Blaid 36; Ymatal 8;Yn erbyn 11; Cyfanswm 55
**Derbyniwyd y cynnig**

**4:31pm**
**Dadl Plaid Leiafrifol: Y Democratiaid Rhyddfrydol**
*NDM1670 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)*
1. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn bod y dreth gyngor, a gyflwynwyd gan y Llywodraeth Geidwadol ym 1993, yn annheg ac:

a) Yn mynegi ei bryder ynghylch effaith gyfansymiol y cynnydd yn y dreth gyngor sydd wedi bod yn gyson uwch na graddfa chwyddiant;

b) Yn gresynu at y ffaith nad yw'r dreth gyngor yn ystyried gallu pobl i dalu a bod unrhyw gynnydd, o ganlyniad, yn rhoi mwy o faich ar y rheini sydd ag incwm sefydlog ac incwm isel megis pensiynwyr;

c) Yn nodi bod cyfartaledd biliau'r dreth gyngor ar gyfer Band D yng Nghymru wedi codi o £416 i £837 ers i'r Blaid Lafur ddod i rym ym 1997, sef cynnydd o £421 neu 101%.

2. O ganlyniad, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i bwyso ar Lywodraeth San Steffan i gael gwared ar y dreth gyngor a sefydlu yn ei lle dreth incwm leol, sef

system drethiannol decach a chynyddol sy’n seiliedig ar yr egwyddor bod y rheini sy’n ennill mwy yn talu mwy.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
**Gwelliant 1 - Karen Sinclair (De Clwyd)**
Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:
Mae'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn y bydd rôl y dreth gyngor o ran cyllido cyfran o wariant llywodraeth leol yn parhau ac mae'n cefnogi adolygiad Llywodraeth y Cynulliad o'r modd y cyllidir gweddill cyllideb llywodraeth leol.

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Dileu pwynt 1 hyd at a chan gynnwys 'yn annheg' a rhoi yn ei le:
'Mae'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn bod angen i Lywodraeth y Cynulliad ac Awdurdodau Lleol feddu ar agwedd gyfrifol at wariant cyhoeddus os yw'r dreth gyngor, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Geidwadol ym 1993, i weithredu'n deg.'

**Gwelliant 3 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu at is-bwynt c):
'ac yn nodi i'r Dreth Gyngor gynyddu bron 20% yn ystod y ddwy flynedd pan fu'r Democratiaid Rhyddfrydol mewn clymblaid â'r blaid Lafur.'

**Gwelliant 4 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu fel is-bwynt newydd ym mhwynt 1:
Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i ariannu'n llawn ganlyniadau ariannol unrhyw benderfyniad sy'n effeithio ar y Dreth Gyngor.

**Gwelliant 5 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu fel is-bwynt newydd ym mhwynt 1:
Yn galw ar Awdurdodau Lleol i rewi biliau'r Dreth Gyngor dros y 5 mlynedd nesaf gan gadw unrhyw gynnydd o dan lefel chwyddiant.

**Gwelliant 6 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Dileu pwynt 2 yn ei gyfanrwydd.

**Gwelliant 7. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Dileu pwynt 2 a rhoi'r pwynt a ganlyn yn ei le:
Mae'r Cynulliad Cenedlaethol felly yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i fynnu bod Llywodraeth San Steffan yn cyfnewid y dreth gyngor am dreth incwm leol, fel rhan o system drethu flaengar a thecach sy'n seiliedig ar egwyddor y rheini sy'n ennill fwyaf sy’n talu fwyaf.

**Gwelliant 8. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i adolygu'r modd y cyllidir gweddill cyllideb llywodraeth leol ac effaith hynny ar ddemocratiaeth leol.

**Gwelliant 9. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i gyflwyno cynllun rhyddhau yn y cyfamser i helpu'r teuluoedd hynny sydd wedi diodde'n drwm oherwydd ailfandio'r dreth gyngor, a fydd ar gael i bob cartref yng Nghymru o 1 Ebrill 2005.

**Gwelliant 1**
O Blaid 29; Ymatal 11; Yn erbyn 16; Cyfanswm 56
**Derbyniwyd y Gwelliant 1**

**Gwnaeth Gwelliant 2 fethu**

**Gwnaeth Gwelliant 3 fethu**

**Gwnaeth Gwelliant 4 fethu**

**Gwnaeth Gwelliant 5 fethu**

**Gwnaeth Gwelliant 6 fethu**

**Gwnaeth Gwelliant 7 fethu**

**Gwelliant 8**
O Blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd Gwelliant 8**

**Gwelliant 9**
O Blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd Gwelliant 9**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O Blaid 41; Ymatal 0;Yn erbyn 14; Cyfanswm 55
**Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.38pm**

**……………………………………………..**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 5 Tachwedd 2003**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

**Dogfennau a Osodwyd ar 29 Hydref 2003**

Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Sesiynol - LD2347
Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal y tu allan i'r Ysgol - LD2348
Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Darpariaethau Chwarae Mynediad Agored - LD2349
Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Crèches - LD2350
Comisiynydd Plant Cymru Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2002-03 - LD2343

**Dogfennau a Osodwyd ar 28 Hydref 2003**

Assembly Ministers statement Pursuant to Standing Order 19.13 - LD2346 - (Dim Copi Cymraeg ar Gael)

**Dogfennau a Osodwyd ar 27 Hydref 2003**

The Regulatory Reform (Business Tenancies) (England and Wales) Order 2003 - Explanatory Memorandum - LD2344 - (Dim Copi Cymraeg ar Gael)
The Regulatory Reform (Business Tenancies) (England and Wales) Order 2003 - LD2345 - (Dim Copi Cymraeg ar Gael)

**Dogfennau a Osodwyd ar 24 Hydref 2003**

Rheoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) 2003 - LD2342

**Dogfennau a Osodwyd ar 22 Hydref 2003**

Rheoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) 2003 - LD2335

**Dogfennau a Osodwyd ar 21 Hydref 2003**

Report of the Committee on Seating Arrangements - LD2337 - (Dim copi Cymraeg ar Gael)
Report of the Committee on Seating Arrangements - Annex B - LD2338 - (Dim copi Cymraeg ar Gael)
Report of the Committee on Seating Arrangements - Annex C - LD2339 - (Dim copi Cymraeg ar Gael)

Report of the Committee on Seating Arrangements - Annex D - LD2340 - (Dim copi Cymraeg ar Gael)

Report of the Committee on Seating Arrangements - Annex E - LD2341 - (Dim copi Cymraeg ar Gael)

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru - 2002-03 - LD2336